Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Atodol Drafft

Yr Egwyddorion yn ymwneud ag Ad-dalu Costau Gofal

Chwefror 2020

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40024

**Adroddiad Atodol Drafft**

**Egwyddorion mewn perthynas ag Ad-dalu Costau Gofal**

**Cyflwyniad**

Mae egwyddorion craidd y Panel wedi bod yn nodwedd hanfodol o'i waith ers ei sefydlu ac maent wedi'u cynnwys ym mhob Adroddiad Blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Cydnabyddiaeth ariannol**

1.3 Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliadau i aelodau o awdurdodau perthnasol sydd â chyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â'r gwaith na pharhau ag ef. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad bod adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n cael eu hariannu o'r taliad. Mae'r Fframwaith yn rhoi taliadau ychwanegol i'r rhai y rhoddir mwy o gyfrifoldeb iddynt.

**Amrywiaeth**

1.4 Caiff democratiaeth ei chryfhau pan fo aelodaeth o awdurdodau perthnasol yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel wastad yn ystyried pa gyfraniad y gall ei fframwaith ei wneud i annog y rhai a dangynrychiolir yn sylweddol i gyfranogi ar lefel awdurdod lleol.

Mae darparu cymorth ariannol i aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal neu anghenion personol yn ffactor bwysig wrth wella a chynnal amrywiaeth ymhlith aelodau. Mae'n hanfodol bod eglurder o ran argaeledd y cymorth hwn a mynediad ato. Rydym felly yn cynnig ychwanegiadau i'n hegwyddorion craidd yn ymwneud yn benodol â chostau gofal. Mae'r Adroddiad Atodol drafft hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer ymgynghoriad.

**Y diben yw:**
Galluogi holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol i ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol.

**Yr Awdurdodau Perthnasol yw:**
22 Awdurdod Lleol, 735 Cyngor Tref a Chymuned, 3 Parc Cenedlaethol a 3 Awdurdod Tân ac Achub

| Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud | | Sut mae mynd ati i wneud hyn |
|---|---|---|
| 1 Nodi’n glir ar gyfer pwy mae'r gofal | 1.1 Aelodau sydd â phrif gyfrifoldeb am ofalu am blentyn neu oedolyn a/neu sydd ag anghenion cymorth personol lle nad yw'r rhain yn dod o dan ddarpariaeth statudol neu ddarpariaeth arall.<br>1.2 Ar gyfer cymorth personol. Gall hyn hefyd gynnwys cyflwr byrdymor neu gyflwr diweddar nad yw'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mynediad i waith, Taliadau Personol, yswiriant neu ddarpariaeth arall. | Staff a/neu Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i adolygu anghenion aelodau yn flynyddol a phan fo amgylchiadau'n newid. |
| 2 Gwella ymwybyddiaeth | 2.1 Sicrhau bod darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr ac aelodau cyfredol yn gwybod bod Ad-daliadau Costau Gofal ar gael iddynt os yw eu hamgylchiadau cyfredol neu eu hamgylchiadau yn y dyfodol yn mynnu hynny. | Sicrhau bod gwybodaeth glir a hawdd ei chanfod ar gael ar y wefan ac mewn deunyddiau ynghylch etholiad a phenodi, mewn sesiynau cysgodi ac yn y sesiwn gynefino ac yn "llawlyfr" yr aelodau. Cyfeirio at daflenni Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â Thaliadau i Gynghorwyr. |
| 3 Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol | 3.1 Sicrhau bod yr holl aelodau yn deall y rheswm dros Ad-dalu Costau Gofal ac yn cefnogi ac annog eraill i hawlio os oes angen. | Anogaeth o fewn ac ar draws yr holl bleidiau yn yr Awdurdodau Perthnasol i gefnogi aelodau i hawlio. Cytuno i beidio hysbysebu neu gyhoeddi unrhyw benderfyniadau unigol i beidio â hawlio. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 Amlinellu'r dyletswyddau a gymeradwywyd ar gyfer hawlio ad-daliad costau gofal | 4.1 **Cyfarfodydd** – ffurfiol (y rhai y mae'r Awdurdod yn eu galw) a'r rhai sy'n angenrheidiol i waith aelodau (i ymdrin â materion yr etholaeth ond nid materion y blaid) a datblygiad personol (hyfforddiant a gwerthusiadau.)<br>4.2 **Teithio** – mewn cysylltiad â mynd i gyfarfodydd.<br>4.3 **Paratoi** – mae darllen a gweinyddu yn rhan o rôl yr aelod. Ar gyfer rhai cyfarfodydd a phwyllgorau, mae angen gwneud llawer iawn o waith darllen, dadansoddi neu ddrafftio cyn neu ar ôl y cyfarfod.<br>4.4 Efallai y bydd gan ddeiliaid cyflogau uwch, sydd â dyletswyddau ychwanegol, gostau uwch. | Mater o ffaith yw dyletswyddau a gymeradwyir fel rheol Mae dehongliad o Reoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'i nodi yn yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>"Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni." |
| 5 Bod yn hyblyg o ran y gwahanol fathau o gymorth y gellid hawlio ar eu cyfer | 5.1 Ni ddylai Aelodau fod ar eu colled<br>5.2 Mae modelau ac anghenion gofal yn amrywio<br>5.3 Gall Aelodau ddefnyddio cyfuniad o sawl dewis gofal<br>5.4 Gall patrymau gofal amrywio dros y flwyddyn ddinesig ac academaidd<br>5.5 Nid yw pob gofal yn seiliedig ar gyfraddau fesul awr (neu ran o awr)<br>5.6 Os oes rhaid talu am sesiwn gyfan, rhaid ad-dalu'r gost yn llawn hyd yn oed os mai ond rhan o sesiwn a oedd ei angen<br>5.7 Gall fod angen i Aelodau wneud y canlynol:<br>5.7.1 archebu a thalu am sesiynau ymlaen llaw<br>5.7.2 ymrwymo i gontract bloc: wythnos, mis neu dymor<br>5.7.3 talu am sesiynau a gafodd eu canslo ar fyr rybudd<br>5.8 Os yw'r angen am ofal mynd ymlaen i ail sesiwn, dylid ad-dalu cost y ddwy sesiwn | |

| | | |
|---|---|---|
| 6 Sicrhau proses hawlio syml | 6.1 Dylai'r aelodau wybod sut i hawlio.<br>6.2 Dylai'r broses hawlio fod yn glir, yn gymesur ac yn archwiliadwy. | Gwirio hawliadau yng ngwerthusiadau ac adolygiadau rheolaidd yr aelodau<br>Hyblygrwydd i dderbyn anfonebau di-bapur<br>Ffurflen ar-lein<br>Yr un ffurflen neu ffurflen debyg ar gyfer hawlio costau teithio |
| 7 Cydymffurfio â rheolau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cyhoeddi | 7.1 Mae Fframwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi:<br><br>“Mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, mae’r Panel wedi penderfynu mai dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai’r awdurdodau perthnasol ei gyhoeddi. Mater i bob awdurdod yw penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu." | |